Adroddiad Corff Llywodraethwyr Cysgod y Foel i'r rhieni am y flwyddyn 2024/25

Ffederasiwn o Ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn sy'n ysgol Gynradd Sirol
(Babanod / Iau) ydy Cysgod y Foel. Maent yn ysgolion dyddiol, dwyieithog, gyd-addysgol.

Y Corff Llywodraethu / Governing Body

ENW	CYNRYCHIOLI
Eifion Wyn Davies	Cadeirydd /Cyngor Cymuned - Chair / Local Community
Angharad Davies	Is-Gadeirydd / Cymunedol – Vide-chair / Community
Buddug Jones	Rhieni / Parents Ffridd y Llyn
Sian Teleri	Rhieni / Parents Ffridd y Llyn
Nia Lynch	Rhieni / ParentsBro Tryweryn
Moi Dafydd	Rhieni / ParentsBro Tryweryn
Heledd Lynch	Staff Dysgu / Teaching Staff Bro Tryweryn
Buddug Williams	Staff Dysgu / Teaching Staff Ffridd y Llyn
Dafydd Roberts	Awdurdod Lleol / Local Authority
Elwyn Edwards	Awdurdod Lleol / Local Authority
Anna Rowlands	Cymuned / Community
Rhys Jones	Cymuned / Community
Rhys Llwyd Davies	Cymuned / Community
Mari Davies	Cylch Meithrin Garn Bach
Awel Mai Jones	Pennaeth
Gwenno Jones	Clerc y Llywodraethwyr

Gellir cysylltu â Chadeirydd y llywodraethwyr drwy'r Pennaeth neu'r Clerc.

The Chairperon can be contacted via the Head or the Clerk.

Gwenno.Jones@ffriddyllyn.ysgoliongwynedd.cymru
Neu
Gwenno.Jones@brotryweryn.ysgoliongwynedd.cymru

Swyddogion Llywodraethol / Governing Officers:

Cadeirydd / Chair– Eifion Davies. Cynlas, Cefnddwysarn. 09/2022 -
Clerc – Gwenno Jones. Gelli Griafolen, Glanrafon 02/2026 -

Gair gan y Cadeirydd:

Annwyl Rieni,

Ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn gyflwyno'r Adroddiad hwn i chi. Bydd yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith yr ysgolion dros y ddau dymor diwethaf.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle i groesawu Mrs Awel Mai Jones fel Pennaeth Ysgolion Ffederasiwn Cysgod y Foel – croeso cynnes i chi, Mrs Jones.

Yn ystod y flwyddyn, bu'n rhaid i ni ffarwelio â Mrs Siân Jones a Mr Daniel Roberts. Hoffwn fynegi ein diolch diffuant iddynt am eu gwaith di-flino dros y blynyddoedd, a dymunwn y gorau iddynt ill dau ar gyfer y dyfodol.

Diolch i'r holl staff am eu gwaith caled a di-flino i sicrhau lles y disgyblion, ac am eu hymroddiad parhaus i Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth barhaus gennych chithau, y rhieni.

Llongyfarchiadau i'r ddwy ysgol ar eu llwyddiannau yn Eisteddfodau'r Urdd, a dymuniadau gorau wrth gystadlu ddiwedd mis Mai yn Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn.

Diolch hefyd i'm cyd-Lywodraethwyr am eu cefnogaeth barhaus. Mae aelodau newydd wedi ymuno â'r Corff Llywodraethol eleni, ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda hwy. Croeso iddynt, a diolch i'r cyn-aelodau am eu gwaith gwerthfawr dros y blynyddoedd.

Eifion Wyn Davies,

Cadeirydd Corff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel.

A word from the Chair:

Dear Parents.

On behalf of the Governors, I would like to present this Report to you. The report provides an overview of the work of the schools over the past two terms.

I would like to take this opportunity to welcome Mrs Awel Mai Jones as Executive Headteacher of the Cysgod y Foel Federation – a warm welcome to you, Mrs Jones.

During the year, we said farewell to Mrs Siân Jones and Mr Daniel Roberts. I would like to express our sincere thanks to them for their tireless work over the years, and we wish them both the very best for the future.

Thank you to all staff for their hard and tireless work in ensuring the wellbeing of the pupils, and for their continued dedication to Ysgol Ffridd y Llyn and Ysgol Bro Tryweryn. We also greatly appreciate the ongoing support from you, the parents.

Congratulations to both schools on their successes at the Urdd Eisteddfodau, and best wishes as they compete at the end of May in the Urdd Eisteddfod on Ynys Môn.

I would also like to thank my fellow Governors for their continued support. New members have joined the Governing Body this year, and we look forward to working with them. A warm welcome to them, and thanks also to former members for their valuable contribution over the years.

Yours sincerely,

Eifion Wyn Davies
Chair of the Governing Body, Ffederasiwn Cysgod y Foel.

Staffio	Ffridd y Llyn	Bro Tryweryn

Mrs Awel Mai Jones	Pennaeth mewn gofal ac athrawes 1 diwrnod
Mrs Buddug Jones-Williams	Pennaeth Cynorthwyol 0.5 / Athrawes 0.3
Mrs Delyth Parry Williams	Athrawes 0.8
Mrs Nona Williams	Athrawes 0.4
Miss Sara Fflur Jones	Cymhorthydd dysgu CA2 Ll/A Dros dro Goruchwiliwr clwb brecwast 5 awr dros dro
Miss Susan Jones	Cymhorthydd 1:1 ADY 25 awr parhaol Goruchwiliwr cinio 5 awr parhaol
Miss Bethany Huggigns	Cymhorthydd LL/A
Mrs Manon Roberts	Cymhorthydd 6 awr parhaol
Mrs Gwenno Jones	Swyddog Gweinyddol 6 awr
Miss Fran Darbyshire	Cogyddes
Mrs Beryl Ann Jones	Gofalwraig

Dosbarth		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen
Dysgu Sylfaen	Bore	DW 18	DW 18	NW 18	DW 18	DW 18
Dysgu Sylfaen	P'nawn	DW 20	NW 20	NW 20	DW 20	DW 18
Dysgu Hŷn	Bore	AMJ 20	NW 20	BW 20	BW 20	BW 20
Dysgu Hŷn	P'nawn	AMJ 20	BW 20	BW 20	BW 20	BW 20

Cyfanswm Niferoedd Disgyblion: 40 (yn cynnwys 2 meithrin)

Mrs Awel Mai Jones	Pennaeth mewn gofal ac athrawes 0.5
Mrs Heledd Lynch	Pennaeth Cynorthwyol 0.5 / Athrawes 0.1
Miss Elain Hughes	Athrawes llawn amser
Miss Cerian O'Brien	Athrawes 0.4 parhaol
Miss Lliwen Jones	Cymhorthydd CA2 27.5 awr parhaol
Miss Lliwen Williams	Cymhorthydd CS Llawn amser parhaol Goruchwiliwr clwb brecwast
Mrs Gwenno Jones	Swyddog Gweinyddol 6 awr
Mrs Cerys Davies	Cogyddes
Mrs Tracey Roberts	Cymhorthydd Cegin 1.5 awr parhaol & achlysurol.
Mrs Beryl Ann Jones	Gofalwraig

Dosbarth		Llun	Maw	Mer	Iau	Gwen
Dysgu Sylfaen	Bore	HL 26	HL 26	COB 26	COB 26	HL 26
Dysgu Sylfaen	P'nawn	HL 26	HL 31	COB 31	COB/ LlW/ Ll 31	HL 31
Dysgu Hŷn	Bore	EH 28	EH 28	EH 28	AMJ 28	EH 28
Dysgu Hŷn	P'nawn	EH 28	EH 28	EH 28	EH 28	EH 28

Cyfanswm Niferoedd Disgyblion: 59 (yn cynnwys 5 meithrin)





Dyddiadau y Tymor / Term Dates

Gwyliau ysgol / School Holidays	Yn cychwyn / Begin	Yn gorffen / End
Hanner tymor Hydref / October half term	27 / 10 / 2025	31 / 10 / 2025
Gwyliau Nadolig / Christmas holiday	22 / 12 / 2025	2 / 01 / 2026
Hanner Tymor Gwanwyn / Spring half term	16 / 02 /2026	20 / 02 / 2026
Gwyliau Pasg / Easter holidays	30 / 03 / 2026	10 / 04 / 2026
Calan Mai (gŵyl banc) / May Day (banc holiday)	4 / 05 / 2026	
Hanner tymor Haf / Summer half term	25 / 05 / 2026	29 / 05 / 2026
Gwyliau Haf / Summer holiday	21 / 07 / 2026	31 / 08 / 2026

ORIAU DYSGU'R YSGOLION

Dysgu Sylfaen / Foundaiton Learning: 24.5 awr yr wythnos / hours per week
CA2 / KS2: 24.5 awr yr wythnos / hours per week

Sesiwn Bore / Morning session: 09:00 – 12:00
Sesiwn y prynhawn / afternoon session: 13:00 – 15:25
Cyfrifoldeb am y plant / Duty of care for the children: 08:50 – 15:40

Y Cwricwmwm

Mae Cwricwlwm ysgol yn cynnwys pob dim mae dysgwyr yn ei brofi yn yr ysgol. Wrth ddylunio cwricwlwm y Ffederasiwn mae anghenion ein dysgwyr yn flaellaw yn ein meddyliau. Rydym yn meddwl yn ofalus wrth ystyried ***Beth*** rydym ni'n addysgu, ***Sut*** rydym yn addysgu a hefyd ***Pam*** ein bod yn ei addysgu.

Ein nod yw cynnig addysg sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol, deallusol a chorfforol pob disgybl, gan sicrhau bod y cwricwlwm yn eang, cynhwysol a chytbwys.
Mae'r athrawon yn cynllunio yn unol â'r 6 Maes Dysgu a Phrofiad, gyda'r Sgiliau Trawsgwricwlaidd yn darparu sylfaen gadarn, a'r 4 Diben yn llywio pob agwedd ar y cynllunio. O fewn y cynlluniau, rhoddir pwyslais ar themâu allweddol megis hanes lleol, y gymuned, digwyddiadau cyfredol o fewn Cymru a'r byd ehangach, yn ogystal â phrofiadau ac ymweliadau cyfoethog — gyda llais y dysgwyr yn greiddiol i bob penderfyniad.
Credwn yn gryf mai llais y disgybl yw sail datblygiad yr ysgol. Mae pob plentyn yn cael ei barchu a'i werthfawrogi, ac rydym yn ymrwymo i ddarparu addysg gynhwysfawr a chytbwys sy'n eu galluogi i dyfu'n ddysgwyr aeddfed, cyfrifol a hapus, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant ac ethos yr ysgol a'r gymuned ehangach.

Yn unol â'r crwricwlwm newydd a gyflwynwyd ym Medi 2022, byddwn yn ysgolion Ffridd y Llyn a Bro Tryweryn yn cefnogi eich plentyn i fod yn:

- ❑ ddysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- ❑ cyfrannwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.
- ❑ Dinesydd egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i chwarae rhan yng Nghymru a'r byd, ac
- ❑ Unigolion iach, hyduerus, sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.

Y Pedwar Diben

Byddwn yn datblygu ein cwricwlwm yn Ffederasiwn Cysgod y Foel ac yn dewis pa brofiadau, gwybodaeth a sgiliau penodol fydd yn cefnogi ein dysgwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu a gwireddu pedwar diben y cwricwlwm yng Nghymru – y man cychwyn a'r dyhead ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc drwy'r wlad. Bydd ein cwricwlwm yn galluogi dysgu ac addysgu o safon uchel. Mae'n cwricwlwm wedi seilio ar ddatblygu sgiliau gydol oes. Darparwn brofiadau creadigol a phwrpasol i' n disgyblion wedi ei seilio ar y pedwar diben sy'n sylfaenol i greu dysgwyr llwyddiannus. Mae ' r cwricwlwm wedi ei deilwra i greu:

			
dysgwyr uchelgeisiol galluog	**gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**	**ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**	**yn unigolion iach, hyderus sydd:**
○ gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ○ mwynhau her a datrys problemau ○ datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau ○ gallu trafod eu hanes yn hyderus ○ gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a ' r Saesneg a chodi ymwybyddiaeth o ieithoedd eraill ○ gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol	○ meddwl yn greadigol ○ cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i ddatrys problemau ○ adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt ○ hyderus i fentro arwain a chydweithio mewn timau ○ mynegi eu syniadau a ' u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd defnyddio eu hegni a ' u sgiliau er budd eraill	○ ffurfio barn a thrafod materion er sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd ○ deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol ○ deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd ○ gwybod am eu diwylliant a'u cymuned ○ gwybod am gymdeithas a'r byd personnol ac yn y gorffennol ○ parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol ○ gweld bod ganddynt tôl i'w chwarae i sichau cynaliadwyedd y blaned	○ berchen ar iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol cryf meithrin chydberthynas yn seiliedig ar barch ac ymddiriedaeth ○ deall gwerthoedd personol ○ defnyddio sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd ○ gallu wynebu a goresgyn heriau

The Curriculum

The school curriculum includes everything learners experience in school. When designing the Federation's curriculum, the needs of our learners are foremost in our minds. We think carefully when considering ***what*** we teach, ***how*** we teach, and also ***why*** we teach it.

Our aim is to provide an education that nurtures the moral, cultural, intellectual and physical development of every pupil, ensuring that the curriculum is inclusive, broad and balanced.
Teachers plan their work in line with the 6 Areas of Learning and Experience, with the Cross-Curricular Skills providing a strong foundation and the 4 Purposes at the heart of all planning. Within these plans, attention is given to key themes such as local history, the community, current local and global events, experiences and visits — with learner voice placed at the centre of everything.
We firmly believe that pupil voice is essential to the development of the school. Every child is respected and valued, and we provide a comprehensive and balanced education to enable them to grow into mature, responsible and happy learners who contribute positively to the culture and ethos of the school and the wider community.

In line with the new curriculum introduced in September 2022, at Ffridd y Llyn and Bro Tryweryn schools we will support your child to become:

- ❑ An ambitious, capable learner who is ready to learn throughout their life
- ❑ An enterprising, creative contributor who is ready to play a full part in life and work
- ❑ An ethical, informed citizen who is ready to play a part in Wales and the world
- ❑ A healthy, confident individual who is ready to live a fulfilling life as a valued member of society

The Four Purposes

We will develop our curriculum in Ffederasiwn Cysgod y Foel and choose what specific experiences, information and skills will support our learners in order to enable them to develop and realise the four purposes of the curriculum in Wales - the starting point and the aspiration for every child and young person throughout the country. Our curriculum will enable learning and teaching of a high standard. Our curriculum is based on developing lifelong skills. We will provide creative and purposeful experiences for our pupils based on the four purposes which are the foundation to creating successful learners. The curriculum is tailored to create:

			
dysgwyr uchelgeisiol galluog	**gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**	**ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n:**	**yn unigolion iach, hyderus sydd:**
○ set high standards for themselves ○ enjoy challenges and solve problems ○ develop knowledge and skills and use them in different contexts ○ discuss their history confidently ○ communicate in Welsh and English and raise awareness of different languages ○ can use mathematics and numeracy skill and digital technologies effectively	○ can think creatively ○ use and connect their knowledge and skills to create, adapt and solve problems ○ recognise opportunities and take advantage of them ○ confidently venture ○ lead and collaborate in teams ○ discuss their ideas and emotions in different ways ○ use their energy and skills for the benefit of others	○ form opinions and discuss matters based on their knowledge and values ○ understand and exercise their responsibilities and human rights ○ understand and consider the effects of their actions ○ know about their own culture and society ○ know about society and the world, both past and present ○ respect the needs and rights of others as members of a varied society ○ see that they have a role to play in ensuring the planet' s sustainability	○ have physical, emotional and mental strength ○ nurture relationships based on respect and trust ○ understand personal values ○ use skills and independence to deal with everyday life ○ can face and overcome challenges



Diogelu / Safeguarding

Mae'r ysgol a'i holl staff yn cydymffurfio'n llawn gyda gofynion Amddiffyn Plant Cyfredol. Mae pob aelod o staff yn gyfrifol am ddiogelu ac amddiffyn holl blant y Ffederasiwn.

Fel rhan o'r gyfundrefn amddifyn plant, mae gan yr athrawon a staff ategol ddyletswydd i adnabod arwyddion o gamdriniaeth corfforol, emosiynol, rhywiol neu arianol neu esgeulustod. Os oes gan unrhyw un unrhyw bryder, mae'n ddyletswydd ar y staff, yn unol a chnllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel drafod y mater gyda'r person dynodedig yn yr ysgol.

Person dynodedig dioelu: Mrs Awel Mai Jones

Yn ei habsenoldeb Mrs Heledd Lynch (Bro Tryweryn) a Mrs Buddug Williams (Ffridd y Llyn) yw'r person dynodedig diogelu.

Llywodraethwr dynodedig: Mrs Angharad Davies

Bydd pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu a Radicaleiddio ym mis Medi ac mae posteri 'Protocol Diogelu' wedi eu arddagnos ar draws yr ysgol.

The school and all its staff fully comply with current Child Protection requirements. Every member of staff is responsible for safeguarding and protecting all children within the Federation.

As part of the child protection system, teachers and support staff have a duty to identify signs of physical, emotional, sexual, or financial abuse, or neglect. If anyone has any concerns, staff are required, in accordance with the *Keeping Learners Safe* guidelines, to discuss the matter with the school's designated person.

Designated Safeguarding Person: Mrs Awel Mai Jones

In her absence, Mrs Heledd Lynch (Bro Tryweryn) and Mrs Buddug Williams (Ffridd y Llyn) are the designated safeguarding persons.

Designated Governor: Mrs Angharad Davies

All staff members receive Safeguarding and Radicalisation training in Semptember and 'Safeguarding Protocol' posters are displayed throughout the school.

Ar ôl oriau ysgol / after schoool hours: 01758 704455 Gwynedd Out of Hours Team: 01286 675502



Lles Disgyblion

Yn ein hysgolion, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar les ein disgyblion. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Amser Cylch rheolaidd, darparu Blwch Pryderon, ac annog disgyblion i siarad â'n staff pan fydd rhywbeth yn eu poeni.

Rydym yn gweithio'n agos gyda rhieni a gofalwyr pan fo pryder ynghylch lles plentyn. Credwn yn gryf fod hyrwyddo gweithgarwch corfforol a'r cyfleoedd allgyrsiol niferus rydym yn eu cynnig yn cefnogi lles meddyliol ac emosiynol y plant.

	Rydym hefyd wedi sefydlu gofodau cynhwysol yn y ddwy ysgol er mwyn cynnal amrywiaeth o weithgareddau lles, gan ddarparu amgylchedd diogel a chroesawgar i ddisgyblion ymlacio, mynegi eu teimladau a derbyn cefnogaeth. Rydym yn falch iawn bod y mwyafrif o'n disgyblion yn cymryd rhan yn yr amrywiaeth o weithgareddau sydd ar gael yn ystod ac ar ôl oriau ysgol, gan gyfrannu at gymuned ysgol iach ac egnïol. Ar ben hynny, mae dau aelod o staff yn dilyn hyfforddiant ELSA (Emotional Literacy Support Asistant) ar hyn o bryd, gan gryfhau ein gallu i gefnogi anghenion emosiynol a lles ein disgyblion yn fwy pwrpasol. Pupil Wellbeing In our schools, we place great emphasis on the wellbeing of our pupils. This includes the regular use of Circle Time, providing a Worry Box, and encouraging pupils to speak to our staff when something is troubling them. We work closely with parents and carers when there are concerns about a child's wellbeing. We strongly believe that promoting physical activity and the numerous extracurricular opportunities we offer supports children's mental and emotional wellbeing. We have also established inclusive spaces in both schools to host a variety of wellbeing activities, providing a safe and welcoming environment for pupils to relax, express their feelings, and receive support. We are very proud that the majority of our pupils take part in the range of activities available during and after school hours, contributing to a healthy and active school community. Additionally, two members of staff are currently undertaking ELSA (Emotional Literacy Support Asistant) training, strengthening our ability to support the emotional needs and wellbeing of our pupils in a more targeted way.
  	Llais y Plentyn / Pupil Voice <u>Y Cyngor Ysgol</u> Mae cyngor ysgol y ddwy ysgol wedi trefnu bore / prynhawn coffi i godi arian tuat at MacMillan. Casglwyd £403.56 rhwng y ddau safle. Roedd yn ddau ddigwyddiad yn llwyddiannus iawn. Mae cyngor ysgol y ddwy ysgol yn parhau i gymryd rhan weithredol o drefnu digwyddiadau / dyddiau arbennig megis diwrnod 'Plant mewn angen' diwrnod siwmper 'Dolig, a llunio posteri ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i Diwrnod Dydd Gwyl Dewi.

	Er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael lle mwy blaenllaw, bydd rhaid sicrhau bod cyfarfodydd cygnor ysgol rheolaidd yn cael eu cynnal a bod y plant yn cofnodi rhain. Mae dosbarth 'google classroom' wedi ei sefylu ar gyfer cadw'r cofnodion hyn ynghŷd a holl ddogfennau eraill megis posteri a holiaduron. <u>Y Cyngor Lles</u> Penderfynodd y cyngor lles eu bod am ofyn i'r gynulleidfa yn y Gwasanaeth Diolchgarwch gyfrannu eitemau tuag at y banc bwyd lleol. Cynlluniodd y Cyngor Lles boster addas er mwyn hysybsu bobl o'r trefniadau hyn. Hefyd, mae'r cynogr lles wedi creu poster i atgoffa'r plant i ddod i'r ysgol mewn sannau od ar gyfer 'wythnos gwrth fwlio' er mwyn dathlu bod pawb yn wahanol. Yn dilyn trafodaeth, mae'r cynogr lles wedi creu poster i hysbysu plant yr ysgol o weithgareddau diwrnod y llyfr. <u>Y Cygnor Eco</u> Yn Ffridd y Llyn, mae'r Cyngor Eco wedi bod yn casglu data ynglŷn a hoff lysiau plant yr ysgol er mwyn cynllunio a pharatoi ar gyfer plannu hadau ar gyfer yr ardd. <u>Swyddogion Diogelwch y Ffyrdd.</u> Yn dilyn hyfforddiant ar lein, cyflwynodd y swyddogion yn Ysgol Ffridd y Llyn negeseuon pwysig am sut i gadw'n ddiogel ar y ffordd i weddill yr ysgol mewn gwasanaeth yr oeddynt wedi ei baratoi. <u>Y Cyngor Iaith</u> Ar ddiwrnod 'Shw mae; Su mai' cynhaliwyd arolwg gan y cynor iaith i weld beth oedd hoff air Cymraeg holl blant yr ysgol. Cyflwynwyd y geiriau hyn mewn poster lliwgan i bawb ei weld. Yn ogystal, crewyd video o dan arweiniad y Cyngor Iaith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Fei'n rhanwyd ar dudalen 'facebook' yr ysgol er mwyn i'r rhieni ei gwylio. Ar gyfer Dydd Gwyl Dewi roedd y Cyngor Iaith yn Ffridd y Llyn wedi paratoi gwasanaeth ar gyfer gweddill yr ysgol yn sôn ychydig am hanes yr iaith ac enwogion lleol oedd yn bwysig i'r iaith Gymraeg. Ynghŷd a hyn aethant ati i greu chwilair Ddewi Sant ar gyfer eu cyfoedion. <u>Yr Urdd</u> Mae blynyddoedd 5 a 6 y ddwy ysgol wedi cymryd rhan yn nhwrnament pel droed Meirionnydd ym mis Medi. Bydd timau cymyst o flynyddoedd 3 a 4 a thimau merched 5 a 6 yn cystadlu mewn twrnament ar y 18 o Hydref.

	Cynhaliwyd cystadleuthau cogurdd a phoburdd yn y ddwy ysgol ar ddechrau'r hanner tymor Medi. Roedd nifer dda wedi cystadlu. Cafodd y plant fwynhad yn cymryd rhan yn y CogUrdd a PhobUrdd rhanbarthol 26/11/25 ym Mro Idris a llongyfarchwn Gwynfor ab Bryn am ddod yn ail yn y gystadleuaeth CogUrdd. Mae plant yn y ddwy ysgol yn brysur ar hyn o bryd yn dysgu ac yn ymarfer ar gyfer Eisteddfod yr Urdd. Mae twrnament rygbi gwahanol oedranau hefyd yn cael eu cynnal yn fuan. <u>The School Council</u> The school councils in both schools organised a coffee morning/afternoon to raise money for MacMillan. A total of £403.56 was collected across the two sites. Both events were very successful. The school councils also continue to take an active part in organising events and special days such as Children in Need Day, Christmas Jumper Day, and creating posters for social media to promote St David's Day. To ensure that pupil voice has a more prominent role, regular school council meetings must be held and recorded by the pupils. A Google Classroom has been set up to store these records along with other documents such as posters and questionnaires. <u>The Wellbeing Council</u> The Wellbeing Council decided to ask the audience at the Thanksgiving Service to contribute items for the local food bank. The council designed a suitable poster to inform people of these arrangements. The Wellbeing Council has also created a poster to remind pupils to come to school wearing odd socks for 'Anti-Bullying Week', celebrating the fact that everyone is different. Following further discussion, the council created a poster to inform pupils about the activities for World Book Day. <u>The Eco Council</u> At Ffridd y Llyn, the Eco Council has been collecting data on pupils' favourite vegetables to plan and prepare for seed planting in the school garden. <u>Road Safety Officers</u> Following online training, the Road Safety Officers at Ysgol Ffridd y Llyn prepared and delivered an assembly for the rest of the school, sharing important messages about how to stay safe on the way to and from school.

	The Language Council On 'Shwmae/Su'mae Day', the Language Council conducted a survey to find out the pupils' favourite Welsh word. These words were presented in a colourful poster for everyone to see. In addition, the council created a video to promote the use of Welsh, which was shared on the school's Facebook page for parents to watch. For St David's Day, the Language Council at Ffridd y Llyn prepared a special assembly for the rest of the school, sharing information about the history of the Welsh language and local figures who have contributed to its importance. They also created a St David-themed wordsearch for their peers. The Urdd Pupils from Years 5 and 6 in both schools took part in the Meirionnydd football tournament in September. Mixed teams from Years 3 and 4, and girls' teams from Years 5 and 6, will compete in a tournament on the 18th of October. Cookery and baking competitions were held in both schools at the start of the September half term, with a good number of pupils taking part. Pupils enjoyed competing in the regional CogUrdd and PobiUrdd competitions on 26/11/25 at Bro Idris, and we congratulate Gwynfor ab Bryn on coming second in the CogUrdd competition. Pupils in both schools are currently busy learning and practising for the Urdd Eisteddfod. A rugby tournament for various age groups will also be held soon.
	Cyswllt â'r Gymuned / Connection with the Community Cyfarfod Cyfeillion Mae cyyfarfodydd Cyfeillion wedi'u cynnal yn y ddwy ysgol a'r rhieni'n brysur yn cynllunio a pharatoi gweithgareddau i godi arian yn ystod y flwyddyn. Bore Coffi Macmillan Y Cyngor Ysgol oedd yn gyfrifol am drefnu bore a phrynhawn coffi Macmillan. Roedd y ddau achlysur yn rhai llewyrchus iawn, gyda nifer o bobl o'r gymuned wedi mynychu i ddangos eu cefnogaeth. Casglwyd £403.56 rhyngddynt tuag at yr elusen.

Diolchgarwch

Cynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch yn Nghapel Llidiardau / Eglwys Llandderfel, a chafwyd cyfraniad helaeth iawn o nwyddau tuag at y banc bwyd lleol.

Noson Bingo / Parti Calan Gaeaf

Diolch yn fawr i'r rhieni am drefnu noson bingo yn Ffridd y Llyn a disgo Calan Gaeaf ym Mro Tryweryn. Roedd y ddwy noson yn brysur ac yn llwyddiannus.

Pêl-droed

Mae Mark Rowlands wedi bod yn dod i ysgol Ffridd y Llyn i hyfforddi'r plant ar gyfer cystadlaethau pêl-droed yr Urdd, tra bod Gwyn Jones wedi bod yn dod i hyfforddi ym Mro Tryweryn. Diolch i'r ddau am roi o'u hamser i gynorthwyo.
Mae'r ymarferion wedi sicrhau bod tîm o bob ysgol wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol pêl-droed yr Urdd.

Pontio

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 ar daith drefol drwy strydoedd y Bala gyda gweddill disgyblion Blwyddyn 6 y clwstwr fel cam cyntaf o'u cyfnod pontio. Mae Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 hefyd wedi cael y cyfle i fynd i noson agored yng Ngodre'r Berwyn.

Ffair Nadolig

Cynhaliwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn yn Ysgol Bro Tryweryn. Diolch i'r Cyfeillion am drefnu. Roedd y ras dractoriau yn werth ei gweld.

Ymweliad Swyddog Pontio

Mae Maria Jones, Swyddog Pontio YGB, wedi ymweld â disgyblion Blwyddyn 6 yn y ddau safle yn ddiweddar, ac mae nifer o weithgareddau wedi'u cynllunio ar gyfer y flwyddyn i sicrhau bod y broses o drosglwyddo i'r uwchradd yn hwylus i bawb.

Nosweithiau Agored

Yn hytrach na noson rieni draddodiadol, cynhaliwyd Nosweithiau Agored yn ail hanner Tymor y Gwanwyn. Gwahoddwyd y rhieni a'r llywodraethwyr i ddod i weld yr amrywiaeth o weithgareddau sy'n digwydd yn y dosbarthiadau, cael crwydro'r ystafelloedd dosbarth ac arsylwi'r arddangosfeydd, yn ogystal â chael sgwrs â'r nyrs ysgol, Swyddog Heddlu Cymunedol Ysgolion, yr adran arlwyo (a chael blas ar sampl o ginio ysgol), Gwasanaeth Awtistiaeth Gwynedd, a chael cyfle i brynu llyfrau gan Awen Meirion.

Roedd y naws yn y ddwy noson yn gartrefol ac yn braf. Mynychodd 14 rhiant yn y ddwy ysgol, ac roedd nifer ohonynt wedi manteisio ar y cyfle i gael sgyrsiau gyda'r athrawon am eu plant.

Friends' Meetings

Two Friends Association meetings, one in each school, have been held so far this year, with parents busy planning and preparing fundraising activities for the year ahead.

Macmillan Coffee Morning

The School Council was responsible for organising the Macmillan coffee morning and afternoon. Both events were very successful, with many members of the community attending to show their support. A total of £403.56 was raised for the charity.

Thanksgiving

A Harvest Thanksgiving service was held at Llidiardau Chapel / Llandderfel Church, and a very generous contribution of goods was collected for the local food bank.

Bingo Night / Halloween Party

A big thank you to the parents for organising a bingo night at Ffridd y Llyn and a Halloween disco at Bro Tryweryn. Both evenings were busy and very successful.

Football

Mark Rowlands has been visiting Ysgol Ffridd y Llyn to coach the children for the Urdd football competitions, while Gwyn Jones has been coaching at Bro Tryweryn. We thank both of them for giving their time to help.

The training sessions have ensured that a team from each school has successfully reached the final round of the Urdd football competition

Christmas Fair

A very successful Christmas Fair was held at Ysgol Bro Tryweryn. Thank you to the Friends Association for organising it. The tractor race was a real highlight!

Transition Officer Visit

Maria Jones, the YGB transition officer, has recently visited Year 6 pupils at both sites, and a number of activities have been planned for the coming year to ensure that the transition to secondary school is smooth for everyone.

Year 6 pupils took part in an urban walk through the streets of Bala with other Year 6 pupils from across the cluster as the first step in their transition programme.
Years 5 and 6 have also had the opportunity to attend an open evening at Godre'r Berwyn.

<u>Open Evenings</u>

Instead of traditional parents' evenings, Open Evenings were held in the second half of the Spring Term. Parents and governors were invited to visit the classrooms, explore the different activities taking place, view displays, and speak with the school nurse, the School Community Police Officer, the catering team (and sample school meals), the Gwynedd Autism Service, and even purchase books from Awen Meirion.

The atmosphere during both evenings was warm and welcoming. Fourteen parents attended in both schools, and many took the opportunity to have valuable conversations with teachers about their children.

Siarter Iaith Ffridd y Llyn	Siarter Iaith Bro Tryweryn
Rydym yn parhau i gwblhau holiadur Y Siarter Iaith ddwywaith y flwyddyn ag yn ymateb I'r anghenion sydd yn cael eu hamlygu. Rydym yn dal i roi pwyslais ar rannu caneuon, straeon a gweithgareddau apiau a rhaglenni Cymraeg sydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym hefyd yn parhau i annog dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mor aml a phosib mewn sefyllfaoedd anffurfiol.	Rydym yn parhau i gwblhau holiadur Y Siarter Iaith ddwywaith y flwyddyn ag yn ymateb I'r anghenion sydd yn cael eu hamlygu. Rydym yn dal i roi pwyslais ar rannu caneuon, straeon a gweithgareddau apiau a rhaglenni Cymraeg sydd yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'r dysgwyr sydd yn dysgu Cymraeg yn gwneud hynny yn llwyddiannus iawn.

Partneriaeth Ysgol-i-Ysgol / School-to-School Partnership

Ffederasiwn Cysgod y Foel

Mae Ysgol Ffridd y Llyn ac Ysgol Bro Tryweryn wedi'u huno fel rhan o Ffederasiwn Cysgod y Foel. Mae hyn yn golygu bod un Pennaeth ac un corff llywodraethol ar gyfer y ddwy ysgol, gyda'r nod o barhau i ddatblygu a chryfhau'r cydweithio rhagorol sydd eisoes yn bodoli.

Mae'r staff yn gweithio'n agos iawn wrth gynllunio ac mae rhannu arbenigedd yn digwydd yn rheolaidd. Mae hyn yn sicrhau:

- manteisio ar arbenigedd unigol staff,
- rhannu syniadau ac arferion da,
- lleihau baich gwaith,
- darparu profiadau dysgu o ansawdd uchel ac ysbrydoledig,
- datblygu dysgwyr ar hyd y continwwm dysgu.

Ysgolion Dalgylch Y Berwyn

Mae'r penaethiaid yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod gwahanol agweddau ar gydweithio. Gyda'i gilydd, maent yn arwain ar weithredu'r Cwricwlwm Newydd drwy drefnu:

- hyfforddiant,
- cyfarfodydd,
- rhannu adnoddau ar draws holl staff y dalgylch ar amrywiaeth o feysydd dysgu a phrofiad.

Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau profiadau cyson o ansawdd uchel i ddisgyblion ar draws y cyfan o glwstwr Penllyn.

Cyfarfodydd CiG Ysgolion Dalgylch Penllyn

Mae ysgolion y clwstwr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod a datblygu gwahanol agweddau o'r Cwricwlwm Newydd.

Mae athrawon CA2, yn ystod y tymor, wedi bod yn:

- cydweiithio ar ddatblygu cynlluniau mathemateg a rhifedd,
- trafod beth sy'n gweithio'n dda,
- nodi meysydd sydd angen datblygu ymhellach.

Mae'r patrwm o gefnogi ei gilydd yn creu diwylliant proffesiynol cadarnhaol sy'n adeiladu hyder ac effeithiolrwydd ar draws y federasiwn a'r dalgylch.

Cysgod y Foel Federation

Ysgol Ffridd y Llyn and Ysgol Bro Tryweryn have come together as part of the Cysgod y Foel Federation. This means there is one Headteacher and one Governing Body for both schools, with the aim of continuing to strengthen the excellent collaboration that already exists.

Staff work very closely when planning, and professional expertise is shared regularly. This ensures:

- effective use of staff expertise,
- opportunities to share ideas and good practice,
- reduced workload,
- high-quality, stimulating learning experiences,
- strong progression for every learner across the learning continuum.

The Federation School Council has also begun meeting, enabling pupils from both schools to share ideas, discuss plans and shape priorities. Both schools operate similarly but also respond to the individual needs of each site.

Y Berwyn Catchment Schools

Headteachers within the Y Berwyn cluster meet regularly to discuss joint priorities. Together, they drive the implementation of the New Curriculum by arranging:

- training,
- meetings,
- shared development opportunities

for all staff across the catchment on a range of Areas of Learning and Experience.

This collaboration ensures consistent, high-quality learning experiences for pupils across the Penllyn area.

Penllyn Cluster CiG Meetings

Schools in the cluster meet frequently to discuss and develop aspects of the New Curriculum.

Key Stage 2 teachers this term have been:

- collaborating on developing mathematics and numeracy plans,
- discussing what works well,
- identifying areas for further development.

A strong pattern of mutual support helps build confidence, consistency and effectiveness across both the federation and the wider cluster.

Trefniadaeth a Pholisiau / Organisation and Policies

Mae trefniadaeth a'r polisiau gweithredol ar draws y Ffederasiwn yn sicrhau cysondeb, tryloywder a threfn glir. Mae polisïau allweddol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y corff llywodraethol ac yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws y ddwy ysgol.	The organisation and operational policies across the Federation ensure consistency, transparency and clear procedures. Key policies are reviewed regularly by the governing body and are implemented consistently across both schools.
Mae'r polisiau isod yn cael eu hadolygu yn flynyddol: ▫ Amddiffyn Plant ▫ Cwricwlwm ▫ Grym Rhesymol	The policies listed below are reviewed annually: ▫ Safeguarding ▫ Curriculum ▫ Reasonable Force

	▫ Iechyd, Diogelwch a Lles ▫ Cyflog Athrawon ▫ Mynediad ▫ Gwrth Fwlio	▫ Health, Safety and Wellbeing ▫ Teachers' Pay ▫ Accessibility ▫ Anti-Bullying

Anghenion Dysgu Ychwanegol / Aditional Learning Needs

Mae'r ysgol yn dilyn y Ddeddf ADY ac yn deall fod addysgu a dysgu o ansawdd uchel yn diwallu anghenion pob dysgwr ac yn cefnogi addysg gynhwysol. Mrs Heledd Lynch, Mrs Awel Jones a Mrs Delyth Williams yw'r Cydlynwyr ADY.

Mae'r Cydlynydd ADY yn nodi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol ac yn cynllunio a chynghori aelodau eraill o'r staff ar ba ymyraethau sydd eu hangen. Gwneir hyn yn ystod trafodaethau cynnydd gyda'r athro wrth drafod os yw'r dysgwr wedi gwneud cynnydd addas o'i fan cychwyn cychwynnol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol e.e y Seicolegydd Addysg a'r Gwasanaeth Ymgysylltu. Mae'r cydlynwyr yn gweithio'n agos gyda rhieni ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda rhieni.

Mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ADY.

<u>Disgyblion ag anableddau:</u>

Yn unol â pholisi'r Awdurdod a gweledigaeth yr ysgol, mae mynediad llawn i ddisgyblion ag anabledd. Mae polisiau'r ysgol yn sicrhau na fyddai disgyblion anabl yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r disgyblion eraill.

The school follows the ALN Act and recognises that high-quality teaching and learning meet the needs of all learners and support inclusive education. Mrs Heledd Lynch, Mrs Awel Jones and Mrs Delyth Williams are the ALN Coordinators.

The ALNCo identifies learners who require additional support and plans, advises and guides other members of staff on the appropriate interventions. This process takes place during progress discussions with the class teacher, where consideration is given to whether the learner has made appropriate progress from their individual starting point.

The schools work closely with external agencies such as the Educational Psychologist and the Engagement Service. The ALN Coordinators also work closely with parents and hold regular meetings with them.

	All staff have received ALN training. <u>Pupils with Disabilities:</u> In line with the Local Authority's policy and the school's vision, full access is provided for pupils with disabilities. The school's policies ensure that disabled pupils are not treated less favourably than other pupils.
	Amcanion Cyffredinol y Ffederasiwn 1. Awyrgylch ac Ethos Sefydlu awyrgylch hapus, diogel a chynhwysol sy'n hyrwyddo parch, gofal a chydweithrediad rhwng staff a disgyblion. Rhoi blaenoriaeth i les corfforol, meddyliol ac emosiynol, gan alluogi pob plentyn i ddatblygu hyder, hunan-barch a llais cryf yn eu dysgu. Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan werthfawr o gymuned sy'n seiliedig ar werthoedd moesol, dyngarol ac ysbrydol. 2. Y Cwricwlwm Darparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol yn unol â Chwricwlwm i Gymru, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bob plentyn ddatblygu fel unigolion uchelgeisiol, iach, cyfranwyr gweithredol, a dinasyddion moesegol. Hyrwyddo datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a Chymhwysedd Digidol ar draws pob maes dysgu a phrofiad, gan sicrhau eu bod yn berthnasol i ystod o gyd-destunau ymarferol ac ystyrlon. 3. Dwyieithrwydd Sicrhau gweithrediad effeithiol o Bolisi Iaith y Ffederasiwn ac yr Awdurdod, gan ddatblygu hyder ac ansawdd iaith pob disgybl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hyrwyddo dwyieithrwydd naturiol a chyfleoedd dilys i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu, chwarae a byw o ddydd i ddydd. 4. Bwyta'n Iach a Lles Parhau i annog dewisiadau iach drwy ysgogi disgyblion i fwyta'n iach, yfed dŵr yn rheolaidd a meithrin arferion lles corfforol cadarnhaol. Cefnogi dull ysgol gyfan o les sy'n cynnwys gweithgarwch corfforol, iechyd meddwl, perthnasoedd cadarnhaol a diogelwch. 5. Trefniadaeth a Rheolaeth Sicrhau trefniadaeth effeithiol sy'n cefnogi gweithredu polisïau, prosesau a pherthnasoedd proffesiynol modern. Gweithio mewn partneriaeth â rhieni, y gymuned a gwasanaethau partner er mwyn sicrhau profiad ysgol gynaliadwy, cydlynol a rhagweithiol i bob dysgwr.

6. Datblygiad Staff

Darparu cyfleoedd parhaus i staff ddatblygu'n broffesiynol yn unol ag anghenion y cwricwlwm, y disgyblion a'r ysgolion. Annog dysgu proffesiynol cydweithredol, adlewyrchiad ac arloesi, ac sicrhau bod hyfforddiant yn cefnogi amcanion Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys lles, cynhwysiant ac ADY.

7. Adeiladau ac Amgylchedd Dysgu

Parhau i wella'r adeiladau a'r amgylchedd dysgu er mwyn bodloni safonau iechyd a diogelwch cyfoes. Creu man dysgu glân, croesawgar ac ysbrydoledig sy'n cefnogi chwarae, creadigrwydd, diogelwch digidol a dysgu awyr-agored, gan wneud defnydd effeithiol o adnoddau modern a chynaliadwy.

General Aims of the Federation

1. Atmosphere and Ethos

We want our schools to feel happy, safe and welcoming. We aim to build a community where everyone treats each other with respect and kindness, and where children feel confident and proud of who they are. Every pupil should feel they belong and that their wellbeing really matters.

2. The Curriculum

We provide a broad and engaging curriculum that follows the Curriculum for Wales and gives every child the chance to learn, explore and grow. We help pupils develop their literacy, numeracy and digital skills in lots of different, meaningful ways so they can use them confidently in everyday learning.

3. Bilingualism

We support pupils to use both Welsh and English confidently. We follow our Language Policy to make sure the Welsh language is used naturally in daily school life — in learning, playing and communicating.

4. Healthy Eating and Wellbeing

We encourage healthy habits, including eating fruit and drinking water every day. We also promote overall wellbeing — helping children to stay active, build positive relationships and look after their physical and mental health.

5. Organisation and Management

We aim to keep our schools running smoothly with clear routines, good communication and strong partnerships with families and the wider community. We want everything to work well so children have the best experience possible.

6. Staff Development

We support our staff to keep learning and growing professionally. Training and development help us meet the needs of our pupils, the curriculum and our schools, while encouraging teamwork, reflection and new ideas.

7. Buildings and Learning Environment

We work to keep our buildings safe, clean and inspiring. We want our school environments to feel welcoming and to support creativity, digital skills, play and outdoor learning, making the most of the space and resources we have.

Blaenoriaethau Cynllun Gwella Ffederasiwn Cysgod y Foel 2025/26 School Development Plan

Blaenoriaeth 1 : Sicrhau fod yr addysgeg a'r ddarpariaeth digidol yn ymateb i holl ofynion y Cwricwlwm Ensuring that pedagogy and digital provision respond effectively to all the requirements of the Curriculum.
Blaenoriaeth 2 : Codi safonau llafaredd y Gymraeg , yn ffurfiol ac yn anffurfiol. To raise standards in Welsh oracy across the school, in both formal and informal contexts.
Blaenoriaeth 3 : Mapio sgiliau rhifedd ar draws yr ysgolion – cydweithio dalgylchol Mapping numeracy skills across the schools – collaborative cluster working.

Chwaraeon / Sport

Rydyn ni'n rhoi gwerth mawr ar weithgareddau corfforol ac ar eu heffaith gadarnhaol ar ddatblygiad corfforol, addysgol, cymdeithasol ac emosiynol pob plentyn. Rydyn ni'n ceisio cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau fel bod pob disgybl yn gallu dod o hyd i rywbeth maen nhw'n ei fwynhau.

	Ein nod yw helpu plant i ddysgu sut i gydweithio fel rhan o dîm, grŵp, pâr ac fel unigolion. Rydyn ni'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, agweddau cadarnhaol fel chwarae teg, cystadlu'n onest, a dysgu sut i ddelio â llwyddiant a methiant. Rydyn ni hefyd yn rhoi pwyslais ar ddiogelwch – dilyn cyfarwyddiadau, parchu rheolau a defnyddio offer yn ofalus. Rydyn ni'n cymryd rhan mewn gemau cyfeillgar a chystadleuol gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, criced, athletau a rownderi, yn ogystal â gemau tîm lleol yn y clwstwr a gweithgareddau'r Urdd. Mae Euros Jones, swyddog datblygu rygbi'r clwstwr, yn parhau i weithio'n agos gyda'r ysgolion i hybu chwaraeon ac annog plant i gymryd rhan. We place great importance on physical activity and its contribution to every child's physical, educational, social and emotional development. We aim to offer a wide range of activities to suit the interests of all pupils. Our goal is to teach children how to work and play together as part of a team, group, pair or as individuals. We promote physical activity and healthy lifestyles, encourage positive attitudes such as fair play and honest competition, and help pupils learn how to deal with both success and disappointment. We also focus on keeping safe by following instructions, understanding and following rules, and using equipment safely. We take part in friendly and competitive games including rugby, football, netball, cricket, athletics and rounders, and we participate in local cluster sports events as well as Urdd competitions. Euros Jones, the cluster rugby development officer, continues to work closely with the schools to promote sports activities. *Awel Mai Jones* *Chwefror 2026*